# SL(6)430 – Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (**SASW**) yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi. Addaswyd Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru gan Orchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 (y "**Gorchymyn Addasu**").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu'r Gorchymyn Addasu o ganlyniad i 13 o bwyntiau adrodd technegol a nodir yn Adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn Addasu.

Gwnaed y Gorchymyn hwn ar 7 Rhagfyr 2023 a daeth i rym ar 9 Rhagfyr 2023.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod yn cael ei dorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad a ganlyn am dorri'r confensiwn a roddodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 8 Rhagfyr 2023:

*"...Diben y Gorchymyn [Addasu] oedd gwneud newidiadau i'r [SASW] i gefnogi nodau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau.*

*Mae'r Fanyleb yn pennu'r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009").*

*... Ar ôl derbyn adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad daeth yn amlwg bod diffygion technegol yn y Gorchymyn a fyddai'n ei atal rhag gweithio fel y bwriadwyd. Felly mae angen dirymu'r Gorchymyn Addasu cyn iddo ddod i rym ar 11 Rhagfyr."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.